

Wyddech chi?

- Bob blwyddyn, mae PPO yn ymdrin â miloedd o **gwynion, gan gynnwys y rheiny gan, rai sy'n cael eu cadw wrth ymgeisio mewnfudo.**
- Mewn ymateb i'r cwynion hyn, fe wnaeth PPO bron i fil **o argymhellion i garchardai a chanolfannau dal wrth aros am mewnfudo** yn y flwyddyn ddiwethaf.
- Mae canlyniadau ein hymchwiliadau yn gwneud dal wrth aros am fewnfudo yn lle **mwy teg, mwy diogel** i rai sy'n cael eu cadw ar draws y wlad.

"Rydw i, ac rydw i'n siwr y carcharorion eraill, yn lwcus fod gennym gorff annibynnol y gallwn droi ato am help. Diolch."

Achwynydd A,
HMP Northumberland

Y Gwir am PPO

- Dydyn ni ddim yn gweithio i'r Swyddfa Gartref, dydyn ni ddim yn gweithio i Gorfodi Mewnfudo Mae PPO yn **gwbl annibynnol.**
- Ni fydd eich cwynion i ni **yn cael eu darllen gan yr IRC**, ac ni fyddant yn cael eu defnyddio yn eich erbyn.
- Rydym yn derbyn miloedd o gwynion bob blwyddyn. **Fe FYDDWN yn cael eich rhai chi.**
- Os ydym yn cytuno gyda chi, gallech gael **ymddiheuriad; cael eich digolledu; hyd yn oed newid yn y modd y mae'r ganolfan yn gweithio.**
- Rydym yn anelu at ateb eich cwyn **o fewn 10 diwrnod** o'i derbyn.

lawn, felly beth alla'
i gwyno amdano?

Beth allwch chi gwyno amdano?

Gallwch gwyno i'r PPO am bob math o bethau – o'r modd y mae staff yn eich trin i'r eiddo rydych wedi ei golli.

Ond, mae yna rai pethau na allwn ymchwilio iddyn nhw:

- Eich achos mewnfudo.
- Cwynion am ofal meddygol.
- Fel rheol gyffredinol, os yw'n fwy na 3 mis ers yr ateb terfynol o'r ganolfan mewnfudo am eich cwyn wreiddiol.
- Rhaid i'r gwyn fod am rywbeth a ddigwyddodd i chi, nid i rywun arall.

Sut i Gwyno

Felly sut ydw i'n cwyno i'r PPO?

Gofalwch eich bod yn dilyn y tri cham hawdd. Os nad ydych yn gwneud, allan' nhw ddim.

- 1** Gofalwch eich bod yn mynd drwy broses gwynion y ganolfan dal wrth aros am fewnfudo i gyd yn gyntaf.
- 2** Ysgrifennwch nodyn byr yn dweud wrthym beth yw eich cwyn – a pham rydych yn dal ddim yn hapus.
- 3** Anfonwch eich gwaith papur i gyd atom – gan gynnwys holl ffurflenni cwyno'r ganolfan dal wrth aros am fewnfudo.

Ble i anfon eich cwyn

Ble dylwn i anfon yr holl waith papur?

Anfonwch yr holl waith papur am eich cwynion i'r cyfeiriad hwn:

Prisons and Probation Ombudsman
PO Box 70769
London
SE1P 4XY

Mae eich llythyrau at yr Ombwdsmon yn rhad ac am ddim.

"Diolch i chi am yr holl waith ac ymdrech rydych yn ei roi i gynnal eich ymchwiliad, mae'n cael ei werthfawrogi'n fawr." "

Achwynydd B,
HMP Kennet

Prisons &
Probation
Ombudsman
Independent Investigations

Sut I Gwyno i'r Ombwdsmon

